

DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN
2017

‘Y Williams iawn?’:

**Golwg newydd ar
*Williams***

***Pantycelyn* gan
Saunders Lewis**

Yr Athro D. Densil Morgan

CYFLWYNIAD

Canolfan yw **Morlan** sydd â'r nod o hybu bywyd cymunedol – yn ddiwylliannol ac ysbrydol, yn lleol a thu hwnt. Fe'i sefydlwyd yn Ebrill 2005 i greu pont rhwng yr eglwys a'r gymdeithas o'i chwmpas ac mae wedi datblygu yn ganolfan bwysig yn yr ardal. Ond mae Morlan yn llawer mwy nag adeilad ... mae'n fan cyfarfod – greu a thrafod, i wrando a dysgu, i ysgogi a chalonogi, i gyd-ddeall a chloio, i rannu a chyfrannu ... tir canol rhwng yr eglwys a phawb sy'n byw yn ein cymdeithas amlddiwylliannol.

Man croesawus a chyfeillgar ydyw sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hynny a bletha'r ddynoliaeth, pob crefydd a chred i'w gilydd. Gwêl ymddiriedolwyr Capel Presbyteriaid y Morfa, perchnogion Morlan, fod sefydlu a chefnogi'r ganolfan yn rhan o'u cenhadaeth.

Mae'n ganolfan gymunedol gydag ystafelloedd i'w llogi ar gyfer pob math o weithgareddau ond mae hefyd yn ganolfan ffydd a diwylliant sydd â'r nod o ddarparu gofod agored i bawb yn y gymuned ble gellir rhannu gwerthoedd Cristnogol – megis heddwch a chyfiawnder – trwy ddiwylliant yn ei ystyr ehangach. Gwneir hyn yn bennaf trwy raglen amrywiol o ddigwyddiadau – trafodaethau, anerchiadau, arddangosfeydd celf, dramâu a chyflwyniadau ac, ers Ebrill 2010, Darlith Flynyddol.

Mae gan **Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen** draddodiad hirach o drefnu darlithoedd. Yn 1961. traddododd Bleddyn Roberts y gyntaf o Ddarlithoedd Syr D.J. James ar bynciau crefyddol. Traddodwyd darlith Gymraeg am yn ail â darlith Saesneg yn flynyddol nes 1973 a bob dwy flynedd ers hynny, gan ymweld ag amryw safleoedd prifysgol ar draws Cymru. Mae'r rhestr o bobl a draddododd y ddarlith yn un faith ond yn cynnwys pobl megis W.T.Pennar Davies, Gwilym R. Tilsley a Richard Harries.

Yr oedd Syr D.J. James eisoes wedi sefydlu dwy ymddiriedolaeth gyda'r bwriad o greu gwaddol parhaol er budd pobl Cymru – Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James (a sefydlwyd yn 1957) ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James (a sefydlwyd yn 1967). Daeth Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen i fod fel dilyniant i'r ymddiriedolaethau hyn ym mis Ebrill 1998 pan sefydlwyd cynllun newydd a dderbyniodd fendith y Comisiwn Elusennau. Amcanion yr Ymddiriedolaeth yw: “... *hybu a hyrwyddo crefydd, addysg, y Celfyddydau ac amaethyddiaeth a phwrpasau elusennol eraill er budd y Cymry, yn bennaf yng Nghymru*”.

Yn ystod 2014, dechreuodd Morlan a'r Ymddiriedolaeth drafod y posibilrwydd o gydweithio ar y darlithoedd blynyddol hyn; roedd hyn yn ddatblygiad naturiol gan fod y ddau gorff yn rhannu llawer o werthoedd. Mae'r trafodaethau hynny bellach wedi dwyn ffrwyth a dyma felly'r cyntaf o **Ddarlithoedd Blynyddol Morlan-Pantyfedwen**.

Am ragor o wybodaeth am Morlan,
cysyllter â:

Y Rheolwr
Morlan
Morfa Mawr
Aberystwyth
SY23 2HH

Ffôn: 01970-617996
E-bost: morlan.aber@gmail.com
Gwefan: morlan.cymru

Am ragor o wybodaeth am Ymddiriedolaeth
James Pantyfedwen, cysyllter â:

Yr Ysgrifennydd Gweithredol
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
Pantyfedwen
9 Stryd y Farchnad
Aberystwyth SY23 1DL

Ffôn: 01970 612806
E-bost: pantyfedwen@btinternet.com
Gwefan: www.jamespantyfedwenfoundation.org.uk

‘Y Williams iawn?’: Golwg newydd ar *Williams Pantycelyn* gan Saunders Lewis

Mae’n fraint fawr cael bod yma heno, i weld hen wynebau a chael croeso hen gyfeillion, ac yn fwyaf arbennig oherwydd yr anrhydedd o draddodi darlith yng nghyfres enwog Pantyfedwen. Rwy’n ymwybodol iawn fy mod yn sefyll mewn cryn olyniaeth. Cychwynnwyd y gyfres mor bell yn ôl ag 1961 a’r darlithydd oedd yr ysgolhaig cawraidd hwnnw, yr Athro Bleddyn Jones Roberts. Teitl ei ddarlith oedd *Sôn am Achub*, ac olrheiniodd ynddi thema’r achubiaeth, neu waith Duw yn gwaredu ei bobl, ar hyd yr Hen Destament: achubiaeth yn y creu; achubiaeth trwy’r cyfamod; achubiaeth yng ngwaith y proffwydi ac ymlaen, a does dim amheuaeth fod y gwaith, a gyhoeddwyd fel cyfrol yn 1964, yn un ddisglair a darllenadwy dros ben. O’r cof sy gen i am y darlithydd, gallai fod yn ffraeth iawn. Pan gyrhaeddais Goleg Bangor yn fyfyrwr israddedig yn 1972, roedd Bleddyn Roberts ar ei flwyddyn olaf cyn ymddeol o’i gadair yn yr Adran Astudiaethau Beiblaidd, a chefais y fraint o eistedd wrth ei draed ar hyd y flwyddyn honno. “*Rwyf wedi bod yn anffodus iawn*”, meddai, “*gyda theitlau fy llyfrau, neu o leiaf gyda’r defnydd o’r atalnod llawn – neu ddiffyg defnydd o’r atalnod llawn – ar gloriau’r llyfrau.*” Ychydig cyn hynny roedd wedi cyhoeddi esboniad ar y Proffwyd Jeremeia o dan y teitl *Proffwyd Gofidiau*, a ymddangosodd o’r wasg fel ‘*Bleddyn Jones Roberts Proffwyd Gofidiau*’. ‘A beth am hwn? *Sôn am achub Bleddyn Jones Roberts!*’

Fel mae’n digwydd, cyhoeddwyd adolygiad ar y gyfrol honno – yn y *Western Mail* – gan neb llai na Saunders Lewis. Bu’n hynod werthfawrogol ohoni, er yn cydnabod mai ‘llygwyr anhyddysg’ ydoedd yn y maes. Ond gwelodd yn syth pa mor bwysig ydoedd: “*Yn wir, trwy gydol y llyfr y mae’r sefyllfa bresennol yng Nghymru yn fyw ym meddwl yr awdur; nid trafod academig yn unig a geir yma o gwbl ... Er mai llyfr bychan yw mi gredaf i ei fod yn bwysicach nag odid unrhyw lyfr Cymraeg arall a gyhoeddwyd y flwyddyn hon*”. Ac yna mae’n mynd ymlaen i wneud ei sylwadau nodweddiadol ei hun:

Bu rhai ohonom yn ystod y misoedd diwethaf yn gwranddo ar leygwyr, a rhai ohonynt yn ddynion o beth gwybodaeth mewn meysydd anniwinyddol, yn trafod diwinyddiaeth gerbron y meicroffon gyda’r anwybodaeth siriolaf a mwyaf hapus hunanfodlon. Tybed ai’r Ysgol Sul Gymraeg sy wedi peri inni farnu fod syniad Jac gystal â dysg Siôn wrth drafod crefydd, nad yw gwybodaeth ddiwinyddol yn cyfri dim, y gellir codi ysgwydd a gofyn gyda gwên herfeiddiol: ‘Oes modd eich bod chi’n credu’n llythrennol yn yr Atgyfodiad?’ a dyna’r ddadl ar ben! Un dull i liniaru mymryn ar Philistiaeth a *vulgarity* arswydus y siarad am grefydd yng Nghymru heddiw fyddai astudio peth ar waith ysgolhaig trylwyr a digogio fel yr Athro Bleddyn Roberts.

(Y *Western Mail*, 10 Gorffennaf 1965; adargraffwyd yn arged Dafydd (gol.), *Ati, Wŷr Ifainc: Ysgrifau gan Saunders Lewis* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986), tt.32-3)

Mae unrhyw ddarlithydd Pantyfedwen yn ymwybodol iawn, felly, o bwysau'r olyniaeth ac o genhadaeth y gyfres hon ers hanner canrif a mwy i liniaru peth ar Philistiaeth a *vulgarity* arswydus y siarad poblogaidd am grefydd a diwinyddiaeth yng Nghymru. A gyda'r rhagymadrodd hwnnw gwell symud yn ôl o Saunders Lewis yr hynafgwr doeth yn 1964 at Saunders Lewis yr *enfant terrible* yn 1927.

Gallaf deimlo bod y llyfr yn aruthrol o fawr. Drwy eich gwybodaeth eang o lenyddiaeth gwledydd eraill a'ch llygaid goleu, treiddgar, rhoesoch inni y Williams Pantycelyn iawn. Ac o gael y Williams iawn gallwn weled o'r diwedd yr athrylith fawr yma yn ei wir ogoniant.

(Dafydd Ifans (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders: Gohebiaeth 1923-83* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1992), tt.27-8)

Geiriau Kate Roberts ar 2 Tachwedd 1927 yn ymateb i gyhoeddi un o gyfrolau beirniadol mwyaf cynhyrfus a mwyaf dadleuol yr ugeinfed ganrif, sef astudiaeth Saunders Lewis o Bantycelyn a welodd olau dydd ychydig wythnosau cyn hynny. Tri deg tri oed oedd Lewis ar y pryd, yn ddarlithydd yng Ngholeg Abertawe er 1922, yn un o sylfaenwyr cylchgrawn blaengar *Y Llenor*, ac eisoes yn hysbys fel *enfant terrible* y sefydliad llenyddol Cymraeg. (Roedd hyn ar wahân i'w waith yn 1925 yn sefydlu, ynghyd ag eraill, Blaid Genedlaethol Cymru.)

Yr un peth a barodd i'r beirniaid llenyddol dalu sylw i Lewis oedd nid yn gymaint ei gyfrol abl ond digyffro *A School of Welsh Augustans* (1924), astudiaeth o farddoniaeth y ddeunawfed ganrif, ond ei ysgrif 'Dafydd Nanmor', sef y cywyddwr o'r bymthegfed ganrif, a welodd olau dydd yn *Y Llenor* yn 1925. Yn wahanol i sylwebyddion eraill, nid canolbwyntio ar iaith ac arddull y cywyddau a wnaeth ond ar eu cynnwys ac yn fwyaf arbennig ar y byd-olwg dieithr, pellennig, estron a ddatguddiwyd ynddynt: 'Ychydig a dybiodd fod gan yr hen brydyddion amgyffred am fywyd na ffilosoffi y byddai'n wiw i ninnau ei ystyried'. A beth oedd y ffilosoffi honno? Yn un peth, ei hymdeimlad dwfn â hynafiaeth a phwysigrwydd tras. Yn ail, lle canolog y grefydd Gatholig, nid ei dogmâu yn unig ond yr ymdeimlad o berthyn i'r un eglwys fyd-eang, sef 'cred'. Ac yn drydydd, rhinwedd y drefn uchelwrol; tri pheth a oedd yn ddieithr i Gymru Brotestannaidd, gapelgar y dau-ddegau:

Heb ddwfn werthfawrogi'r pethau hyn, sef traddodiad mewn meddwl a chelfyddyd, Cristnogaeth Gatholig a chymdeithas aristocrataidd, ni ellir caru llenyddiaeth Gymraeg y cyfnodau Cymreig yn ddigon llwyr i fyw arni a'i derbyn yn dref-tad ac yn faeth i'r ysbryd.

Ac am Dafydd Nanmor ei hun:

Daw ei weithiau inni heddiw yn neges gyfamserol, canys ni cheir eto geinder gwareiddiad yng Nghymru oni rodder i weledigaeth Gymreig y bardd hwn ei lle yn ein bywyd

(‘Dafydd Nanmor’, *Y Llenor* (1925), tt.136-7; adargraffwyd yn R. Geraint Gruffydd (gol.), *Meistri’r Canrifoedd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1973), tt.296-16)

Tour de force oedd yr ysgrif honno, ac yn arwydd fod Lewis bellach yn rym ym mywyd deallusol y genedl. ‘Nid hawdd i feirniaid ieuainc amgyffred newydd-deb y syniadau hyn yn 1925 na’r cyffro a grëwyd ganddynt’, meddai Griffith John Williams:

... Anaml y gellir dywedyd am unrhyw erthygl ei bod wedi cychwyn cyfnod newydd yn y gwaith o astudio unrhyw bwnc, ond credaf ei bod yn iawn inni ddywedyd hynny am yr ymdriniaeth hon â gwaith Dafydd Nanmor. (‘Cyfraniad Saunders Lewis fel Ysgolhaig Cymraeg’, yn Pennar Davies (gol.) *Saunders Lewis, Ei Feddwl a’i Waith* (Dinbych: Gwasg Gee, 1950), t.126)

Beth oedd a wnelo bardd Catholig o’r bymthegfed ganrif â’r ‘Williams’ hwnnw – y gŵr a’r talcen uchel roedd ei lun i’w weld ar barwydydd myrdd o festrioedd capeli ar hyd a lled y wlad – roedd crefyddwyr Cymru wedi hen gynefino â’i emynau? Roedd gofyn troi at y gyfrol i weld hynny, ac yn fwyaf arbennig y bennod gyntaf, sef ‘Yr Estheteg Gymreig’ (gw. Saunders Lewis, ynghyd â rhagymadrodd gan D. Densil Morgan, *Williams Pantycelyn* (1927) (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016), tt.15-41).

‘Yr Estheteg Gymreig’ oedd y drefn gadarn ei sylfeini y cafwyd enghreifftiau ohoni ym marddoniaeth yr Oesoedd Canol a hithau yn “*brif gyfraniad Cymru i feddwl esthetig Ewrop*” (t.16). Ei hoes aur oedd rhwng 1330 ac 1640, ei diweddu felly gyda theyrnasiad Siarl I a dechrau anghydfod y Rhyfeloedd Cartref. Ond ni aned Williams tan 1717, ganrif a hanner yn ddiweddarach. Beth ddigwyddodd yn y cyfamser? Gyda machlud yr Oesoedd Canol crëwyd y genedl-wladwriaeth fodern, cafwyd hollt grefyddol enbyd yn Ewrop, a’r Diwygiad Protestannaidd yn torri ar unoliaeth cred. Yn Lloegr a Chymru gyda Harri VIII ysbeiliwyd y mynachlogydd, amddifadwyd y bobl o’u crefydd gysefin a chefnodd yr uchelwyr ar eu cyfrifoldebau cymdeithasol a moesol. A’r canlyniad? “*Gwnaethpwyd Cymru’n wlad o bobl unig ... Canlyniad anrhefn a drysni meddwl yw unigedd*” (t.22). A dyna fyddai cyd-destun bywyd Williams:

Er mwyn deall bywyd a gwaith Pantycelyn, a’i farn am farddoniaeth, rhaid dal yn gyntaf oll ar y ffaith hon: ei eni a’i fagu a’i addysgu mewn gwlad a gollasai ei threfn gymdeithasol a’i thraddodiadau, gwlad wedi ei maglu mewn unigedd a thlodi ysbrydol (t.23).

Byddai darllenwyr Lewis braidd oll wedi’u trwytho mewn barn gwbl groes i hynny; mai’r Oesoedd Canol oedd yr oesoedd tywyll mewn gwirionedd, i’r wawr ysbrydol dorri yn gyntaf gyda Martin Luther a John Calvin a’r Diwygiad Protestannaidd ar y cyfandir, i’r goleuni lewyrchu yn danbeitiach gydag Edward VI ac Elizabeth I a’r Esgob William Morgan a Beibl 1588, ac yn fwy tanbaid fyth gyda mudiad Piwritanaidd yr ail ganrif a’r bymtheg a’r goleuni yn cyrraedd ei anterth canol dydd gyda’r Fethodistiaeth roedd Williams yn lladmerydd mor amlwg ohoni. Ond na! Yn ôl yr ysgolhaig o Goleg Abertawe, unigedd a thlodi ysbrydol oedd nodweddiion y Gymru y ganed mab John a Dorothy Williams iddi yng Nghefn-coed, Llanfair ar y bryn, Sir Gaerfyrddin, ym Mis Bach 1717.

Os cynnal trefn ddaionus bywyd oedd amcan llenyddiaeth yn y canrifoedd cynt, ac i’r amcan hwnnw ballu ers tro byd, beth felly a barodd i Williams ddechrau canu? (Wedi’r cwbl, oni fyddai Daniel Rowland yn dweud cyn hir mai “*Williams biau’r gân*”?). Yn syml iawn (medd Lewis) canu er mwyn mynegi profiad ei unigrwydd ei hun: “*Yn ei unigedd nid oedd ganddo i ganu amdano onid ef ei hun ... Ef oedd y bardd cyntaf i droi profiadau mewnol a chyflyrau enaid yn brif ddeunydd barddoniaeth*” (t.31). Ni feddai Dafydd Nanmor a’i gyfoeswyr nemor ddim ymdeimlad â dirgelwch yr hunan; lles cymdeithas a chynnal trefn wrthrychol y byd oedd eu hunig gymhelliad i ganu; moli uchelwyr. Ond ym myd unig Williams nid oedd mo’r fath beth â chymdeithas nac ag eglwys:

*Ar ôl dydd y Farn y gwelai Williams Gymundeb y Saint ... Mor dlawd
yw’r meddwl hwn o’i gymharu â’r syniad gwareiddiol a chyfriniol am yr
Eglwys yn gorff Crist yn y byd ac yn barhad o’r ymgnawdoliad (tt.25-7).*

Felly heb gymdeithas, heb eglwys, heb *fyd* i bob pwrpas, pererin unig oedd y bardd, ar goll mewn anialwch a thywyllwch:

*Pererin wyf mewn anial dir
Yn crwydro yma a thraw ...*

Mewn gwirionedd nid bardd crefyddol oedd Williams o gwbl – y cywyddwyr oedd y beirdd crefyddol a’u mawl i Dduw yn fodd i gynnal gwarineb a chymdeithas iach – ond bardd y profiad unigolyddol noeth: “*Yn y gwraidd nid bardd crefyddol oedd Williams ond bardd eneidegol, bardd ei brofiadau’i hun*” (t.31). Barddoni er mwyn meddiannu’r profiad mewnol yn llwyrach a wnaeth ac yn hynny o beth roedd yn drwyadl fodern, y cyntaf o lenorion mawr y Gymru fodern. Y dasg a osododd yr awdur i’w hun oedd deall a dehongli gweledigaeth lenyddol ei wrthrych gan gynnwys crefft ei ganu, ei fesurau, ei odlau a’i eirfa yn ogystal â’i athroniaeth bywyd, a gweld a oedd modd eu cyfuno â hanfodion yr estheteg Gymreig.

Er mwyn cynnal ei ddadl mai rhamantydd oedd Williams a’r llenor Cymraeg modern cyntaf, mae Lewis yn dadansoddi un o’r gweithiau rhyddiaith sef *Drws y Society Profiad*: “*Trwy ‘Ddrws y Society Profiad’ y mae mynd i mewn i deml*

barddoniaeth Pantycelyn” (t.42). Llawlyfr ar sut i gadw seiat oedd y llyfr hwnnw, a phwrpas y seiat oedd trin profiadau’r enaid:

Pan gynhyrfwyd y Cymry unwaith eto gan brofiadau crefyddol, bu’n rhaid er mwyn iechyd meddwl dynion a’u harbed rhag gwallgofrwydd, atgyfodi mewn rhyw fodd gyffes yr eglwys Gatholig, a dyna oedd y Seiat (t.43).

Dwy thema sy’n rhedeg trwy’r astudiaeth ar ei hyd, sef mai bardd y seice dynol yw Williams, a seicoleg yn 1927, yn sgil gwaith Sigmund Freud a Carl Gustav Jung, yn wyddor gyfoes, ac yn ôl categorïau cyfriniol yr Eglwys Gatholig y gellid dadansoddi orau hanfod y profiad crefyddol. Roedd y ddau haerid yn annisgwyl a dweud y lleiaf! Ond mae’n mynd ati’n ddeheuig, yn odidog o hunan-hyderus ac yn athrylithgar iawn, i geisio profi’i bwynt. Pwy arall ond Saunders a feiddiai ddod â Sigmund Freud a’i theorïau ynghylch rhywioldeb llencyndod, a’r Sbaenwyr Teresa o Avila a Ieuan y Groes o gyfnod y Gwrth-ddiwgyiad, i mewn i seiadau cartrefol bryniau Sir Gâr, er mwyn rhoi trefn ar brofiadau y dychweledigion ifainc?

Nac anghofiwn newyddwch y disgrifiadau hyn. Yn y llenyddiaethau Protestannaidd dyma’r ymgais gyntaf i roi dosbarth ar brofedigaethau’r meddwl a’u darlunio’n fanwl. Mewn eneiddeg y bu diwinyddiaeth Brotestannaidd bob amser yn wan, a dyna lle y mae cryfder eithriadol Williams (t.52).

Yr ymgais *gyntaf* yn y llên Brotestannaidd? Roedd gwaith William Perkins o Gaergrawnt a llu eraill o Biwritaniaid yr unfed ganrif ar bymtheg ar gael, oll yn dadansoddi yn fanwl gyflyrau’r enaid, a byddai golwg ar *Lwybr Hyffordd i’r Nefoedd* (1630), sef cyfieithiad Robert Llwyd, ficer y Waun, o gyfrol Arthur Dent *The Plain Man’s Pathway to Heaven*, neu *Lyfr y Resolution* (1631) yng nghyfieithiad John Davies, Mallwyd, neu gyfrol Siôn Tre-rhedyn, y llenor o Gil-y-coed, Gwent, *Madruddyn y Difinyddiaeth Diweddaraf* (1651), sef ei fersiwn ef o’r testun enwog *A Marrow of Modern Divinity*, neu *Y Cywir Ddychwelwr* (1657) o waith Thomas Shepard, y Piwritan o Loegr Newydd, y rhain oll yn Gymraeg, wedi dangos i Lewis pa mor gwbl gyfeiliornus oedd ei haerid: “*Mewn eneiddeg y bu diwinyddiaeth Brotestannaidd bob amser yn wan*”. A beth wnewch chi o’r sylw hwn?

Yn ei ddiwinyddiaeth, ei syniadau athronyddol, derbynai Williams Galfiniaeth yn llawn. Y mae ei eneiddeg, ffrwyth ei brofiad a’i feddwl ei hun, yn gwbl anghalfinaidd. Ni welodd ef erioed yr anghysondeb (t.56).

Pabydd anymwybodol o gyfrinydd oedd Williams S.L., ac yn rhagflaeni syniadau Sigmund Freud o ddwy ganrif heb yn wybod iddo’i hun, a hynny yn Gymraeg!

Ffordd y puro, ffordd y goleuo a ffordd yr uno yw'r patrwm sy'n cael ei osod ar gorff gwaith Pantycelyn yn y penodau sy'n dilyn: yr emynydd ifanc yn cael ei buro yn y gweithiau cynharaf, *Aleluia* (1747), emynau amrwd sy'n gor-ganoli ar yr hunan; y goleuo, lle mae proses sancteiddhad yn mynd yn ei blaen a'r Cristion yn tyfu mewn aeddfedrwydd ysbrydol a'r bardd yn tyfu yn nisgyblaeth ei awen – gwelir hyn yn glir yn *Hosana i Fab Dafydd* (1754) ac yn fwy fyth yn *Caniadau y Rhai sydd ar y Môr o Wydr* (1762): “Onid yw'n bryd cydnabod yn Y Môr o Wydr un o lyfrau mawr barddoniaeth Gymraeg, a'r ystwythaf o gyfrolau Pantycelyn?” (t.91); ac yno yr uno terfynol pan fo'r enaid bellach yn cyrraedd yr aeddfedu eithaf a chymdeithas gyflawn a'r duwdod, hyn i'w weld yn *Ffarwel Weledig* (1769) a *Gloria in Excelsis* (1772).

Ond y campwaith beirniadol – pa mor ecentrig bynnag o ran ei fanylion – yw'r ymdriniaeth orchestol o'r gerdd hir *Theomemphus* yn y bumed bennod 'Tröedigaeth Llanc'. 'Yn *Theomemphus* fe gerddodd Williams ffordd y goleuni. Diwedd y gân a fydd ffordd yr Uno' (t.94). Gwreiddioldeb y gwaith a newydd-deb syfrdanol Williams wrth ei lunio, oedd iddo greu cân a oedd yn llawn nid o deipiau statig yn null y llên arwrol, ond o gymeriadau byw a oedd yn tyfu ac yn datblygu ger ein bron: “Yn ‘*Theomemphus*’ fe grynhoes Williams brofiadau’i fywyd yn oriel o bersonau byw ... pob un ohonynt yn gymeriad ar ei ben ei hun” (tt.96-7) – Orthocephalus, Philomela, Risius, Boanerges, Evangelius ac yn y blaen. Yn wir, “nid teip yw *Theomemphus*, ond gwir ddyn a chanddo holl gymhlethdod person byw ... Dyma hanfod newydd-deb ‘*Theomemphus*’ yn hanes meddwl Ewrop” (t.102). Ar ben hynny, gan fod y deunydd yn ymwneud â holl droeon y profiad mewnol ac yn galeidoscop llachar o gyflyrau'r enaid, ei demtasiynau, ei brofedigaethau, ei fethiannau a'i fuddugoliaethau, roedd yn agor y ffordd i gyfnod newydd yn hanes llên: “Llygrwyd ffynnon clasuriaeth y cyfnod. Daeth i mewn i fywyd Ewrop ddyn newydd, creadigaeth newydd, un a deimlai ac a brofai, *Theomemphus*, y cymeriad rhamantus” (t.104). Roedd yr emynydd o Bantycelyn yn dad y symudiad mawr nesaf yn hanes diwylliant y Gorllewin, sef Rhamantiaeth: “Dyma'r gyntaf o ganeuon mawr y mudiad rhamantus yn llenyddiaeth Ewrop” (t.106).

Un o'r pethau a barodd i'r beirniaid ffromi pan ddarllenwyd y gwaith yn 1927 oedd y cyfeiriadau agored at ryw:

Prif hudol y byd mewnol hwn yw greddf rhyw. Yn ei lencyndod y dargenfydd bachgen ei fod yn greadur rhywiol, a daw'r ymwybod iddo'n aml yn ddychryn a phoen ... Hyn sy'n ffurfio llencyndod, yn brif gymhellydd holl egni'r cyfnod (t.114).

Mae llencyndod yn gyfnod mewndroëdig ar y gorau, a heb sianelu'r egniön pwerus i gyfeiriadau allanol, iachus, y perygl yw troi'n or-fewnblyg a hyn yn arwain at ffantasi a niwrosis. I'r sawl a fagwyd yn foesol, gallai'r ffantasiâu hyn droi'n arswyd ac yn loes cydwybod, ac o'u cywasgu i'r isymwybod gallent droi'n beryglus.

Yn achos cymeriad canolog y gân, dyna a wnaed: “*Dyna gyflwr Theomemphus. Yr oedd yn aeddfed felly i gyfnewid*” (t.117). Nid fflach o’r nefoedd mo tröedigaeth

ond peth y ceir hir baratoad ar ei gyfer, ond er gwaethaf pangfeydd mewnol y gwrandäwr ifanc, ni ddaeth yr ymwared eto. Mewn gwirionedd roedd gwaeth i ddod, a thrwy genadwri Boanerges (‘Mab y Daran’), sef pregethwr y ddeddf, troes poendod Theomemphus a’i ddiflastod mewnol yn euogrwydd enbyd:

Gwae fi, gwae fi i’ m geni, mi wela’n awr i gyd
Bob ffiadd beth a wnaethum er pan y de’s i’r byd;
Mae ’mhechod yn fy wyneb, ac yn fy ngwasgu lawr
Saith drymach na’r mynyddau i waelod Uffern fawr.

Ond roedd y cwbl, er na wyddai’r llanc hynny ar y pryd, yn rhan o broses ei ymwared: “*Cenfydd weithian nad oes un achubiaeth iddo’r tu mewn iddo’i hunan*” (t.124). Os daw gwardigaeth o gwbl, o’r tu allan, o du Duw, y daw. Mae’r darlun yn odidog, ac mae holl actorion drama tröedigaeth y llanc nwyfus hwn – ‘Orthocephalus’ y pregethwr athrawiaethol; ‘Boanerges’, pregethwr y ddeddf; ‘Arbitrius Liber’ (‘Ewyllys Rydd’), y pregethwr modernaid, rhyddfrydol, cynnyrch yr optimistiaeth athronyddol gyfoes; ‘Evangelius’, pregethwr yr ymwared efengylaidd; ‘Alethius’, y cynghorwr doeth, stiward y seiat, a hefyd ‘Philomela’, cariad y llanc, y ferch ifanc dlws sy’n arwyddocau peryglon serch cnawdol – oll yn cyfrannu at greu un o gampweithiau llên y ddeunawfed ganrif, tra bod y bennod hon yn eithriadol o ran camp y dehongli a natur afaelgar yr ysgrifennu. Dyma, meddai Derec Llwyd Morgan am y bennod hon, “*un o binaclau beirniadaeth Gymraeg*” (*Y Diwygiad Mawr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1981), t.152).

Ond ai dyna’r diwedd? Nage. Y tu hwnt i dröedigaeth y llanc, ffordd y puro a ffordd y goleuo, ceir y dröedigaeth gyfriniol, yr uno terfynol sy’n arwain at gyfanrwydd seicolegol ac adferiad meddwl llwyr, ‘yr ecstasi a fu’n wobwr yr ymwacâd terfynol’ (t.184). Gall ffarwelio nawr, yn yr wythfed bennod, â chnawd a byd ac ymorffwys yn derfynol yn Nuw.

Ond beth yw diben y cwbl? Teithiasom ym mhell oddi wrth ‘yr estheteg Gymreig’ a sefydlogrwydd gwaraidd Dafydd Nanmor a’r Oesoedd Canol. Gwyddai Lewis na allai – ac mewn gwirionedd wrth sefydlu’r Blaid Genedlaethol yn 1925 na fynnai – ddychwelyd i ryw Afallon, Gwlad yr Hud, rhyw fyd afreal o’r gorffennol, ond yn hytrach wynebu her a chymhlethdod ei ganrif ei hun. Yn ei ddadl enwog â W.J. Gruffydd a grynhowyd yn ‘Y Llythyr Ynghylch Catholigiaeth’, yn rhifyn yr haf 1927 o’r *Llenor*, sef yn gyfamserol â’r gyfrol hon, ac yn ei nofel fodernaidd, ddadleuol *Monica* (1930), a gyflwynwyd “*i goffadwriaeth Williams Pantycelyn, unig gychwynnydd y dull hwn o ysgrifennu*”, nid ffoi oddi wrth ei oes oedd y nod, ond cynnig ffordd gynhyrfus, waraidd a radical, i ymateb i’w heriau a’i hanghenion. A dyna pam roedd Williams yn berthnasol i Gymru’r ugeinfed ganrif:

Rhoes i'r Gymraeg ddisgyblaeth a phrofiad newydd. Creodd iaith lenyddol gymysg y gellir ynddi drin bywyd unigolion a dilyn troeon chwimaf y meddwl. Gwnaeth iaith fodern, offeryn i wyddoniaeth a nofelwyr fynegi drysni cymhleth y profiadau cyfrwysaf, ingoedd chwant a dyhead, trai a llanw teimladau nerfus ... Drylliodd anystwythder barddoniaeth. Cyn ei ddyfod yr oedd hi'n urddasol, ond yn stiff fel haearn bwrw. Toddwyd hi yng ngwres ei brofiad. Llifodd fel metel tawdd drwy ffwrneisiau ei emynau. (tt.220-1)

Gyda chyfuniad o'r 'estheteg Gymreig' a realaeth seicolegol y byd cyfoes gellid llunio llên y Gymru newydd.

Mae'r ymateb i'r gyfrol yn bwnc cyflawn ac arwyddocaol ynddo ei hun, a byddaf yn dweud mwy amdano (os byw ac iach) yn y gynhadledd undydd a fydd yn cael ei chynnal i gloi blwyddyn y dathlu yn y Llyfrgell Genedlaethol ym mis Hydref, ond y cwbl a wnaf yn awr yw crybwyll yn sydyn yr ysgolheigion o Aberystwyth a fu'n bwysig yn hanes y tafoli.

Ei hadolygydd cyntaf (hyd y gellais i olrhain) oedd T. Gwynn Jones, Athro Llenyddiaeth Gymraeg y Coleg ger y Lli, ac o holl athrawon y Gymraeg, yr un roedd Saunders Lewis yn ei edmygu fwyaf. Yn rhifyn Tachwedd 1927 o'r cylchgrawn materion cyfoes *The Welsh Outlook* meddai: "*This ... is the first study of the subject which is both serious and competent*". Fel mae'n digwydd roedd J.G. Moelwyn Hughes wedi cyhoeddi cyfrol ar Pantycelyn yn 1922, *Pedair Cymwynas Pantycelyn*, ac yn 1928 byddai'n rhyddhau ei feirniadaeth *Mr Saunders Lewis a Williams Pantycelyn*, llyfr a fyddai'n gwneud mwy o ddrwg i'w enw ei hun fel sylwebydd nag i enw Saunders Lewis fel awdur. Mae'n amlwg nad oedd y gyfrol wreiddiol o eiddo Moelwyn nac yn 'serious' nag yn 'competent'. Myn, fodd bynnag, fod eraill wedi lled awgrymu rhai o bwyntiau'r awdur o'r blaen, ond ni wnaeth neb eu gosod allan mewn dull mor gyflawn, argyhoeddiadol a deheuig. Er na fynnai anghytuno'n sylfaenol â'i ddehongliadau cyffrous, ei brif bryder oedd bod y gwaith yn *rhy* daclus. Roedd y diffinio yn rhy bendant, roedd yr awdur yn gwneud gormod o haeriadau dogmatig a allent fod yn wir ond nad oedd modd eu profi na'u gwrthbrofi, a'i fod yn rhy chwannog i ystumio ffeithiau i gydweddu â'i ddamcaniaethau, boed seicolegol neu lenyddol. Ond fel enghraifft o feirniadaeth lenyddol ffres, beiddgar a chynhyrfus, roedd yn ddihafal: "*The study is undoubtedly a brilliant performance, the full significance of which, I am sure, I shall begin to grasp when I have read it many times*" (T. Gwynn Jones, 'Williams Pant-y-celyn', *The Welsh Outlook*, 14 (1927), 286-8 [286]).

Gymaint oedd gyfaredd a disgleirdeb y dehongliad newydd hwn yn wyneb musgrellni amddiffynnol Moelwyn Hughes ac eraill nes i bortread seicolegol-Gatholig Lewis droi yn fath o uniongrededd a barodd, i bob pwrpas, am

genhedlaeth gyfan a mwy. Roedd rhaid aros tan y 1960au cyn i'r hen gonsensws gael ei herio a chonsensws newydd ymffurfio.

Nearly forty years have passed [meddai un sylwebydd yn 1965] since the publication of Mr. Saunders Lewis's book on Williams Pantycelyn, and historians of Welsh literature will not fail to describe the sensation it caused ... No one alive today who read and argued about the book can forget the feelings of joy, pride and relief it stirred.

(W. Roberts, 'Saunders Lewis and William Williams: Notes for a Revaluation', *The Anglo-Welsh Review*, 15 (1965), 18-25 [18])

Herio ysgolheigion Cymraeg i dafoli gwaith Williams o'r newydd a wnaeth y sylwebydd hwnnw, ac fel mae'n digwydd, roedd Gwenallt, mewn darlith radio a ddarllledwyd yn 1963 ond a gyhoeddwyd mewn print yn 1966, eisoes wedi arwain ym mhroses yr ail-ddehongli. I Gwenallt, Protestant unionged o Anglicanwr oedd Williams, yn ffyddlon i sylwedd y Deugain Erthygl Namyn Un "*yn enwedig yr Erthyglau ar Etholedigaeth, Cyfiawnhad trwy Ffydd ac Ailenedigaeth*", ei ffydd yn gytûn â Chredo'r Apostolion a Chredo Nicea, a'i Biwritaniaeth yn unol â thraddodiadau gorau eglwysi Diwygiedig y cyfandir. Nid crwydryn unigolyddol mewn Cymru anial mohono, yn gyfrinydd y ddwy dröedigaeth a ymdoddai yn Nuw trwy lesmair a myfyrdod, ond un a oedd, fel pob Cristion crediniol, yn brofiadol o undeb ffydd â Christ y Testament Newydd. Roedd y pwyslais yn un gwastad rhwng y gwrthrychol a'r goddrychol, yr athrawiaethol a'r profiadol, yr unigol a'r eglwysig:

Y mae'n bwysig cofio fod y Methodistiaid yn rhoi pwys ar yr Eglwys, oherwydd y syniad cyffredin amdanynt yw mai rhoi pwyslais ar yr unigolyn yn unig a wnaethant; ond yr oedd eu crefydd hwy yn grefydd Eglwysig, ac yn grefydd gymdeithasol ... Camgymeriad yw credu fod y Methodistiaid yn rhoi'r holl bwyslais ar brofiad. Fe gredent hwy y dylid cael profiad goddrychol o Efengyl wrthrychol: a'r Efengyl wrthrychol oedd bwysicaf.

(D. Gwenallt Jones, 'William Williams, Pantycelyn: Ei Gerddi Hir', yn Dyfnallt Morgan (gol.), *Gwŷr Llên y Ddeunawfed Ganrif* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1966), tt.92-101; yn 1963 y darllledwyd y sgrysiâu'n wreiddiol)

Nid oedd purdan yn rhan o'u cred, ac roedd mwy lawer o glasuriaeth yng ngwead cerddi hir Williams, *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus*, na'r rhamantaidd: "*Y mae 'Theomemphus' yn gerdd glasurol am fod Pantycelyn, fel beirdd clasurol y ddeunawfed ganrif, yn disgrifio'r hyn sydd yn gyffredinol a nodweddiadol, ac nid, fel y rhamantwyr, yn disgrifio'r hyn sydd yn arbennig a lleol*". Er na sonnir am Saunders Lewis yn uniongyrchol yn y sgwrs hon, mae'n amlwg fod Gwenallt wedi symud allan o dan gysgod *Williams Pantycelyn* er mwyn darlunio bardd mwy Beiblaidd, Protestannaidd, a oedd yn fwy diwinyddol na seicolegol ei osgo.

I nodi daucanmlwyddiant marw Williams yn 1991, golygodd Derec Llwyd Morgan y gyfrol gyfansawdd *Meddwl a Dychymyg Williams Pantycelyn*. Un o ddwy ysgrif oedd yn ymateb fwyaf i lyfr Saunders Lewis oedd eiddo Meredydd Evans, ‘Pantycelyn a Thröedigaeth’. Yr hyn mae Merêd yn ei wneud yw adeiladu ar astudiaeth R. Tudur Jones, *Saunders Lewis a Williams Pantycelyn* a draddodwyd fel Darlith Goffa Henry Lewis beth amser ynghynt.

Dylai fod yn glir bellach nad patrwm y Tair Ffordd – Puro, Goleuo ac Uno – yw’r un priodol i wneud cyfiawnder â gwaith Williams Pantycelyn. Fel yr oedd ef yn ei gweld hi, yr oedd stori’r achub yn cynnwys yr Arfaeth, Gwaith Achubol Crist, Galwad Effeithiol y credadun, Cyfiawnhau, Sancteiddio a Gogoneddu. Dyma’r llinyn arian sy’n rhedeg trwy ei waith i gyd.

(*Saunders Lewis a Williams Pantycelyn: Darlith Goffa Henry Lewis*
(Abertawe: Coleg Prifysgol Abertawe, 1987), t.21)

Yr hyn a wna Merêd, yn ddeheuig dros ben ynghyd â thoreth o enghreifftiau yw olrhain y camau y soniwyd amdanynt eisoes o dan yr is-benawdau: yr Arfaeth, Galwad Effeithiol, Cyfiawnhau, Sancteiddio a Gogoneddu. Yr ydym ym mhell bell yma oddi wrth gyfundrefn Bonaventura ac awelon balmaidd Sbaen y Gwrth-Ddiwygiad ac yn anadlu awyr oerach, cliriach, bryniau Sir Gaerfyrddin yn y ddeunawfed ganrif:

[E]r yr holl amrywiaeth yn nhröedigaethau’r cadwedigion o ran lleoliad, hyd, dwyster a gwefr, yr un yw’r patrwm diwinyddol sydd yn eu gwneud yn ddealladwy inni, yn ôl Williams. Mynnai nad oes amrywiad yn nhrefn y cadw.

(Meredydd Evans, ‘Pantycelyn a Thröedigaeth’, yn
Morgan (gol.), *Meddwl a Dychymyg Williams Pantycelyn*
(Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), tt.55-81 [81])

Mae’n bur debyg mai *Cyfriniaeth Gymraeg* (1994) gan R.M. Jones yw’r ymdriniaeth fwyaf cynhwysfawr sydd gennym ag ysbrydoledd yn ein llenyddiaeth, ac mae’n cynnwys pennod wirioneddol gyfoethog ar Williams. Fel ‘Y Cyfrinydd Athrawiaethol’ y disgrifia Bobi Williams, gan adleisio mewn gwirionedd ddehongliad Gwenallt, Tudur a Merêd. Canoli a wna’r bennod ar y ddwy ddelwedd ‘Y Carwr’ a’r ‘Teithiwr’ yng ngwaith yr emynydd, ac er bod sawl beirniad wedi trafod y delweddau hynny o’r blaen, ongl wahanol sy ganddo. Er mor Feiblaidd y dadansoddi, erys presenoldeb Saunders Lewis yn fwy na chysgod dros y bennod. “*Nid oes neb yn mynd i gweryla â mi*”, meddai, “*os dywedaf fod cyfrol Saunders Lewis ar Williams Pantycelyn yn un o ddigwyddiadau beirniadol mawr y ganrif*” (*Cyfriniaeth Gymraeg* (Caerdydd: Gwag Prifysgol Cymru, 1994), tt.92-3). Serch y ffaith bod chwe degawd a mwy wedi mynd heibio oddi ar i *Williams Pantycelyn* beri ei chynnwrf cychwynnol, roedd yn dal i ennyn ymateb o hyd.

'Y Williams iawn?' Bu cryn ddyfalu ers i Saunders Lewis gyhoeddi ei gampwaith, athrylithgar ond cyfeiliornus, ddeng mlynedd a phedwar ugain yn ôl, ac ym mlwyddyn y dathlu mawr dylem gofio nid yn unig am Bantycelyn ond am un o'i ddehonglwyr mwyaf disglair hefyd. Terfynwn trwy aralleirio Elfed:

Dante – dos i'w ddilyn
Shakespeare – tro i'w fyd;
Cofia Bantycelyn – a Saunders Lewis –
Yr un pryd.

D. Densil Morgan
Darlith Flynyddol Morlan-Pant-y-fedwen
24 Ebrill 2017